## F. ASESIAD O'R EFFAITH AR FIOAMRYWIAETH

Cyflwynodd Adran 6, Rhan 1, o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 ddyletswydd ehangach o ran bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau (dyletswydd A6) ar gyfer awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, wrth arfer swyddogaethau sy'n berthnasol i Gymru.

Mae dyletswydd A6 yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth cyn belled ag y bo hynny'n gyson ag arfer eu swyddogaethau'n briodol, gan hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau wrth wneud hynny.

Mae Cynllun Adfer Natur Cymru yn cynnwys chwe amcan i wrthdroi dirywiad ym maes bioamrywiaeth, y dylid eu defnyddio i asesu'r effeithiau ar fioamrywiaeth. Gallant hefyd helpu i ddatblygu a llywio camau gweithredu i gydymffurfio â dyletswydd A6.

Ystyriwyd effaith Deddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020 ar fioamrywiaeth a'r rheoliadau cynefinoedd wrth iddi basio drwy'r Senedd. Ar y cam hwnnw, cytunwyd nad oes cysylltiad nac effaith uniongyrchol ar fioamrywiaeth drwy:

- Gaffael
- Rheoli adeiladau
- Y posibiliadau o ran codi ymwybyddiaeth a hyfforddiant
- Y posibiliadau o ran cefnogi cymunedau a phartneriaethau
- Dylanwadu ar eraill a ariennir gennym ee ymgynghorwyr, contractwyr, cynlluniau grant.

Nid ydym yn credu y bydd unrhyw newid i'r asesiad hwn o'r effaith ar fioamrywiaeth wrth weithredu'r Ddeddf.